

Diweddariad Covid-19 – Canllawiau Troi Stoc Ifanc Allan

Gwybodaeth yn gywir am 12:30yp ar 03.04.2020

- Gall stoc ifanc ffynnu ar laswellt, ond mae angen eu rheoli'n dda i gyflawni targedau cyfraddau twf
- Darparu borthiant ychwanegol digonol a sicrhewch fod mwynau ar gael
- Trafodwch eich strategaeth rhoi moddion gwrthlyngyrol â'ch milfeddyg

Gall y sefyllfa bresennol olygu bod yn rhaid mabwysiadu dulliau sy'n wahanol i'r drefn arferol. Mewn rhai unedau, gall troi allan rhai (neu ragor) o'r stoc ifanc fod yn ddull o leihau'r baich gwaith dyddiol ac arbed costau porthiant a deunydd gorwedd. Mae angen i ni gofio mai dyma yw dyfodol y fuches, felly mae'n allweddol sicrhau bod cyfraddau twf ac iechyd yn cael eu cynnal.

Pori heffrod sy'n IAU na 12 mis oed

- Mae cyflawni'r cyfraddau twf gorau, rheoli iechyd a rheolaeth yn gyffredinol yn anoddach.
- Ni argymhellir pori lloi sy'n iau na 3 mis oed.
- Gall lloi sydd dros 4 mis oed bori'n llwyddiannus os cânt ddwysfwydydd (1-3kg y pen bob dydd, yn dibynnu ar amgylchiadau pori) neu fwynau fel porthiant ychwanegol.
- Ceisiwch bwyso cyfran (10%) o'r heffrod yn rheolaidd i fesur cyfraddau twf ac addaswch ddulliau rheoli stoc yn unol â hynny.

Pwysau Targed	Holstein	Jersey
Pwysau targed pan yn 4 mis oed	125-150 kg	100 kg
Pwysau targed pan yn 11 mis oed	320-350 kg	225 kg

- Fe wnaiff heffrod sy'n pori (12+ mis oed) fwyta 35-50 kg o laswellt (ffres) bob dydd.
- Sicrhewch fod y llain bori'n addas i faint y grŵp.
- Yn y cyfnod cyn gofyn tarw, dylid sicrhau bod cyfanswm y maeth a roddir i heffrod yn cael ei gynyddu'n raddol er mwyn gwneud y gorau o embryonau hyfyw.

Targedau Cyfraddau Twf	Holstein	Jersey
Pwysau targed ar adeg gofyn tarw (13 mis oed a hŷn)	365-415 kg	260 kg
Uchder y war pan yn 13 mis oed	124-130 cm	114 cm
Pwysau targed pan yn 15 mis oed	420-485 kg	290 kg

- Ystyriwch hefyd roi ychwanegion porthiant i heffrod hŷn, i gyd-fynd ag argaeledd y borfa. Sicrhewch fod mwynau yn cael eu cynnwys, neu adolygwch yr opsiynau o ran darparu torthau mwynau sy'n dal dŵr/sbeislyd ar sail *ad lib*.

Targedau Cyfraddau Twf	Holstein	Jersey
Pwysau Targed yn 22 mis oed	530-595 kg	390 kg

Strategaethau Rhoi Moddion Llyngyr i Stoc Ifanc

Mae'r adeg pan gaiff stoc ifanc eu troi allan yn gyfnod peryglus o ran heintiau parasitiaid. Dylech chi gydweithio â'ch milfeddyg i lunio cynllun penodol i'ch fferm, a gall ef neu hi gynnig cyngor i chi ynghylch pa gynhyrchion y dylid eu defnyddio, ond dyma rai pwyntiau i'w hystyried.

Dyma'r cyngor presennol gan COWS (rheoli llyngyr yn gynaliadwy):

- Cyn troi allan, dylid cyfrif wyau ysgarthol i ganfod presenoldeb llyngyr yr iau a'r rwmen.
- Os bydd hynny'n ofynnol, defnyddiwch foddion sy'n targedu llyngyr yr iau a'r rwmen yn eu llawn dwf, i osgoi halogi'r borfa.
- Os bydd hynny'n bosibl, dylai anifeiliaid yn eu tymor pori cyntaf gael eu troi allan i borfa lan neu borfa ble ceir risg isel o lyngyr.
- Os cafodd y borfa ei defnyddio gan wartheg y llynedd, mae angen protocol strategol ynghylch rhoi moddion gwrthlyngyrol i loi eleni i atal Gastroenteritis Parasitaidd (PGE).
- Mae llyngyr yr ysgyfaint yn berygl sylweddol i anifeiliaid yn ystod eu tymor pori cyntaf mewn ardaloedd penodol, felly mae brechu stoc ifanc cyn eu troi allan yn hollbwysig. Yn achos stoc hŷn, dylid asesu risgiau pori ac efallai bydd arnynt angen pigiaid atgyfnerthu.

PGE:

- Ni fydd gan loi ifanc neu anifeiliaid sydd heb bori o'r blaen unrhyw imiwnedd i'r parasitiaid cyffredin sy'n bresennol ar borfa. Y prif glefydau parasitaidd i fod yn wylidwrus ohonynt yw Gastroenteritis Parasitaidd (PGE) a Llyngyr yr iau.
- Mae PGE yn un o glefydau'r abomaswm, ac yn wahanol i lyngyr yr ysgyfaint a llyngyr yr iau, ni welir hynny'n gyffredin mewn gwartheg yn eu llawn dwf.
- Mae atal PGE yn bwysig a cheir dau opsiwn y dylid eu trafod â'ch milfeddyg, oherwydd maent yn dibynnu ar hanes eich fferm unigol.

Triniaethau strategol ag anthelmintigau

Defnyddio triniaethau o fewn 3 wythnos ar ôl troi allan a'u hailadrodd yn ôl y galw hyd at ganol Gorffennaf, i geisio atal halogi'r borfa. Byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio'r dull hwn oherwydd gall symbylu ymwrthedd i anthelmintigau ar ffermydd.

Triniaethau therapiwtig

Mae'r opsiwn hwn yn ceisio lleihau ymwrthedd i anthelmintigau, a bydd yn defnyddio cynhyrchion fel triniaethau yn unig pan fydd angen hynny. Dylid defnyddio hyn ar y cyd â chylchdro porfa i sicrhau na fydd anifeiliaid yn wynebu beichiau parasitiaid sylweddol yn ddiweddarach yn y tymor. Mae angen cynllunio manwl i wneud hyn, a cheir mwy o risg o weld clefydau isglingol neu glinigol.

Llyngyr yr ysgyfaint:

- Gall llyngyr yr ysgyfaint achosi problemau difrifol yn achos anifeiliaid yn ystod eu tymor pori cyntaf, ond gall effeithio ar rai yn ystod eu hail dymor pori a gwartheg yn eu llawn dwf. Mae'r imiwnedd i lyngyr yr iau yn eithaf gwan, ac mae angen amlygiad rheolaidd i'w gynnal. Rydym ni wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion ymhlith gwartheg yn eu llawn dwf, felly mae'n bwysig ystyried eich ffactorau risgiau; cysylltwch â'ch milfeddyg i drafod y dull rheoli sy'n benodol i'ch ardal.
- Mae brechu yn strategaeth allweddol i reoli llyngyr yr iau. Dylid brechu anifeiliaid sydd dros 8 wythnos oed, gan roi dau ddos, 4 wythnos ar wahân, a dylid rhoi'r ail ddos bythefnos cyn eu troi allan i sicrhau fod yr imiwnedd yn bresennol. Yna, bydd angen i'r anifeiliaid ddod i gysylltiad â "her llyngyr yr ysgyfaint" i gwblhau'r ymateb imiwnedd.

Paratowyd gan Kite Consulting



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813